Cyflogi Ffoaduriaid

Arweinlyfr i gyflogwyr: dogfennau sy'n darparu tystiolaeth am hawl i weithio.

Mawrth 2009

Y Comisiwn Cy-draddoldeb a Hawliau Dynol
equalityhumanrights.com

REFUGEE COUNCIL

Elusen hawliau dynol sy'n annibynnol ar y llywodraeth yw'r Refugee Council. Ei nod yw sicrhau bod ffoaduriaid yn cael yr amddiffyniad sydd ei angen arnynt, eu bod yn cael eu trin â pharch a dealltwriaeth, a'u bod yn cael yr un hawliau, cyfleoedd a chyfrifoldebau ag aelodau eraill ein cymdeithas. I gael mwy o wybodaeth ewch i: www.refugeecouncil.org.uk

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gweithio i ddileu gwahaniaethu, lleihau anghydraddoldeb, amddiffyn hawliau dynol a meithrin cysylltiadau da, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle teg i gyfrannu i gymdeithas. Ceir mwy o wybodaeth yn: www.equalityhumanrights.com/cy/wales

Cyflogi Ffoaduriaid

Arweinlyfr i gyflogwyr:

dogfennau sy'n darparu tystiolaeth am hawl i weithio.

Mawrth 2009

Cynnwys

1. Cyflwyniad 4
2. Beth all ffoaduriaid ei gyfrannu at y gweithle? 5
3. Dogfennau sy'n dangos hawl ffoaduriaid i weithio yn y DU 5
4. Dogfennau sy'n dangos hawl ceiswyr lloches i weithio yn y DU 5
5. Gwneud cais am ganiatâd pellach i aros 12
6. Sylwadau terfynol 13
7. Mwy o wybodaeth 14
8. Tabl cyfeirio cyflym 14

1. Cyflwyniad

Braslun o'r arweinlyfr

Nod yr arweinlyfr hwn yw esbonio ac egluro'r dogfennau sydd gan ffoaduriaid, a rhai ceiswyr lloches, sy'n dangos eu hawl i weithio yn y DU. Nid oes gan ffoaduriaid basbort cenedlaethol fel arfer. Yn lle, cânt ddogfennau ar wahân gan y Swyddfa Gartref.

Mae'r arweinlyfr hwn yn amlinellu'r dogfennau y bydd angen i chi eu harchwilio cyn cyflogi ffoadur neu geisiwr lloches. Argymhellir y dogfennau hyn yn Prevention of Illegal Working: Comprehensive Guidance for Employers on Preventing Illegal Working gan Asiantaeth Ffiniau'r DU (UKBA) (y cyfeirir ato fel Canllawiau Cynhwysfawr yn yr arweinlyfr hwn). Mae hwn yn gymwys i bob gweithiwr a ddechreuodd weithio i chi o'r 29 Chwefror 2008 ymlaen a gellir ei ddarllen yn: ww.ukba.homeoffice.gov.uk/sitecontent/documents/employersandsponsors/preventingillegalworking

UKBA yw'r rhan o'r Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am loches, caniatâd i weithio a chaniatâd i aros yn y DU. Mae'r UKBA yn argymell eich bod yn archwilio dogfennau pob darpar weithiwr. O ganlyniad i'r rheolau newydd a ddaeth i rym ar 29 Chwefror 2008[i], gall cyflogwyr dderbyn dirwy o hyd at £10,000 neu hyd yn oed gael eu carcharu am gyflogi gweithwyr nad oes ganddynt yr hawl i weithio yn y DU. Er mwyn sefydlu amddiffyniad statudol, dylai cyflogwr gymryd rhai camau penodol cyn cyflogi gweithiwr er mwyn sicrhau bod ganddo ef neu hi yr hawl i weithio yn y DU. I weld y camau y dylid eu cymryd wrth wneud y gwiriadau hyn, cyfeiriwch at dudalennau 9-10 o Ganllawiau Cynhwysfawr yr UKBA.

Cefndir

Mae ffoaduriaid yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu yn y gweithle (h.y. ar sail rhyw, hil, crefydd a chred, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac oedran) i'r un graddau â phawb arall yn y DU.[ii] Ond gallant hefyd wynebu problemau arbennig am fod yna ddryswch ynghylch eu hawliau.

---

i Gweler www.ukba.homeoffice.gov.uk/sitecontent/documents/ employersandsponsors/preventing illegalworking/ Yn achos gweithwyr a gafodd eu recriwtio cyn y dyddiad hwn, dylech chi gyfeirio at y canllawiau cynhwysfawr blaenorol a ddaeth i rym ar 1 Mai 2004. [Cyrchwyd 2 Mawrth 2009]

Ni ddylid ystyried ffoaduriaid fel gweithwyr mudol economaidd. Nid ydynt yn rhan o'r system bwyntiau: lle mae'n rhaid i weithwyr mudol gyflawni lefel arbennig o sgil a phrofiad a lle rhoddir dyletswyddau noddi i gyflogwyr. Mae ffoaduriaid wedi cael eu gorfodi i adael eu gwledydd am fod arnynt ofn cael eu herlid. Gallant weithio yn y DU heb unrhyw gyfyngiadau a chânt eu hamddiffyn yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu.

2. Beth all ffoaduriaid ei gyfrannu at y gweithle?

Mae gan ffoaduriaid amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau gwerthfawr – adnoddau sy'n fanteisiol iawn yn y gweithle. Roedd y rhan helaeth o ffoaduriaid yn gweithio cyn iddynt gyrraedd y DU, ac mae ganddynt gefndiroedd mewn amrywiaeth eang o rolau, o grefftwyr i reolwyr a swyddogion uwch. Mae ymchwil yn dangos bod ffoaduriaid yn awyddus iawn i ddod o hyd i waith yn y DU ac i wneud cyfraniad cadarnhaol yn y gwaith; mewn arolwg diweddar, nododd 96% o'r ffoaduriaid eu bod yn awyddus i weithio, a dangosodd 60% ddiddordeb mewn hyfforddiant a datblygiad yn y gwaith.

3. Dogfennau sy'n dangos hawl ffoaduriaid i weithio yn y DU

Pwy sy'n ffoadur?

Rhoddir statws ffoadur i unigolyn sydd wedi derbyn penderfyniad cadarnhaol ar ei gais am loches o dan Gonfensiwn 1951 y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws Ffoaduriaid (Confensiwn y Ffoaduriaid) ac sydd wedi cael caniatâd i aros yn y DU. Gorfodir ffoaduriaid i adael eu gwledydd oherwydd bod arnynt ofn erledigaeth, yn aml o ganlyniad i gamau uniongyrchol gan y wladwriaeth.

ii Yn yr un modd â gweithwyr eraill yn y DU, amddiffynnir ffoaduriaid gan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (1995), Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Oedran) (2006), Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) (2003), Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Cyfeiriadedd Rhywiol) (2003), y Ddeddf Hawliau Dynol (1998), y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (1976) a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw (1975), sydd hefyd yn amddiffyn pobl drawsrywiol rhag dioddef gwahaniaethu.

Yn y gorffennol, roedd unigolyn â statws ffoadur yn cael caniatâd i aros yn y DU am gyfnod amhenodol. Ond, o'r 30 Awst 2005, am bum mlynedd yn unig y caiff ffoaduriaid ganiatâd i aros.

Fe allai unigolion nad ydynt yn bodloni meini prawf Confensiwn y Ffoaduriaid ar gyfer Statws Ffoadur fod yn gymwys i gael naill ai Amddiffyniad Dyngarol (a roddir am bum mlynedd) neu Ganiatâd yn ôl Disgresiwn (a roddir am hyd at dair blynedd). Mae'r arweinlyfr hwn yn defnyddio'r term 'ffoadur' i gynnwys Statws Ffoadur, Amddiffyniad Dyngarol a Chaniatâd yn ôl Disgresiwn.

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar y math o waith y caiff ffoaduriaid ei wneud yn y DU. Gall y rheiny sydd â chaniatâd i aros yn y DU am gyfnod cyfyngedig wneud cais am ganiatâd pellach. Yn ystod y cyfnod hwn, yr un hawliau gwaith a hyfforddiant sydd gan ffoadur ag o'r blaen. (Gweler Adran 5 am fwy o fanylion).

Dogfennau

Pan gaiff ffoaduriaid ganiatâd i aros yn y DU, rhoddir Dogfen Statws Mewnfudo iddynt gan y Swyddfa Gartref. Gall ffoadur wneud cais i'r Swyddfa Gartref am Ddogfen Deithio hefyd. Cyn mis Ebrill 2004, roedd y Swyddfa Gartref yn anfon llythyr hefyd pan fyddai ffoadur yn cael caniatâd i aros. Mae'r rhain i gyd yn darparu tystiolaeth o'r hawl i weithio yn y DU ac amlinellir nhw isod.

Efallai y bydd angen i chi archwilio dogfennau ychwanegol i weithwyr hefyd. Gallai hyn gynnwys gwneud copïau o ddogfennau swyddogol a gyflwynwyd gan un o Asiantaethau'r Llywodraeth, fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu'r Adran Gwaith a Phensiynau, neu ddogfen a gyflwynwyd gan gyflogwr blaenorol yn nodi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw. Mae'r enghreifftiau o ddogfennau'n cynnwys P45, P60 neu Gerdyn Yswiriant Gwladol. Mae'r UKBA hefyd yn argymell y dylid bwrw golwg yn flynyddol ar hawliau gweithio gweithwyr sydd â chaniatâd i aros yn y DU am gyfnod cyfyngedig.

Ni roddir cardiau adnabod i ffoaduriaid ar hyn o bryd. Fodd bynnag, disgwylir y bydd yr UKBA'n dechrau cyflwyno cardiau adnabod i rai ffoaduriaid o 2011 ymlaen. Mae gan Ganllawiau Cynhwysfawr yr UKBA ddwy restr:

Rhestr A:

Dogfennau sy'n dangos nad yw'r deiliad yn destun rheolaeth fewnfudo, neu nad oes cyfyngiad ar ei amser yn y DU. Bydd y dogfennau'n nodi bod gan y deiliad Ganiatâd Amhenodol i Ddod i mewn neu Aros yn y DU. Os bydd darpar weithiwr neu weithiwr cyfredol yn cyflwyno dogfen

o Restr A (neu un o'r cyfuniadau o ddogfennau a nodir isod), gallant weithio i chi am gyfnod amhenodol.

Rhestr B:

Dogfennau sy'n dangos bod y deiliad wedi cael caniatâd i ddod i mewn neu i aros yn y DU am gyfnod cyfyngedig o amser. Bydd y ddogfen yn nodi'r dyddiad y bydd caniatâd y deiliad yn dod i ben. Os bydd unigolyn yn darparu dogfennau o Restr B, bydd angen i chi wneud gwiriadau eraill tebyg o leiaf unwaith bob 12 mis.

Caiff ffoaduriaid sydd â dogfennau o Restr B wneud cais am ganiatâd pellach cyn i'w caniatâd cyfredol ddod i ben. Yn ystod y cyfnod hwn o aros am benderfyniad yngl?n â'i gais am ganiatâd pellach, yr un fydd hawliau cyflogaeth a hyfforddiant y ffoadur. Fodd bynnag, bydd angen i ffoaduriaid anfon eu dogfennau gwreiddiol i'r Swyddfa Gartref gyda'u ceisiadau am ganiatâd pellach. I gael mwy o fanylion am y camau y bydd angen i chi eu dilyn yn y sefyllfa hon, gweler Adran 5.

Dyma'r dogfennau, a'r cyfuniadau o ddogfennau, y mae ffoaduriaid yn debygol o'u cyflwyno i ddangos eu hawl i weithio yn y DU.

Dogfen Statws Mewnfudo

Rhoddir Dogfen Statws Mewnfudo (ISD) i ymgeisydd wedi'r caniatâd i aros, lle na cheir pasbort neu lle na fyddai'n briodol i arnodi pasbort cenedlaethol. Mae'r ISD yn rhoi manylion yr ymgeisydd, hyd ei gyfnod yn y DU a gallai nodi ei statws (Ffoadur, Amddiffyniad Dyngarol neu Ganiatâd yn ôl Disgresiwn).



Adrannau gwahanol o'r ISD

Rhestr A - ISD: ISD sy'n nodi bod gan y deiliad ganiatâd amhenodol i Ddod i mewn neu i Aros a dogfen swyddogol gan un o asiantaethau'r Llywodraeth, fel Cyllid **a** Thollau Ei Mawrhydi neu'r Adran Gwaith a Phensiynau, neu gan gyflogwr blaenorol yn nodi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw. Mae'r enghreifftiau o ddogfennau y gellir eu cyfuno â'r ISD yn cynnwys P45, P60 neu gerdyn rhif Yswiriant Gwladol.

Rhestr B - ISD: yr ISD **a** dogfen swyddogol a gyflwynwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth, fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu'r Adran Gwaith a Phensiynau, neu gan gyflogwr blaenorol yn nodi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw, a gwiriadau dilynol tebyg o leiaf unwaith bob 12 mis. Mae'r enghreifftiau o ddogfennau y gellir eu cyfuno â'r ISD yn cynnwys P45, P60 neu gerdyn rhif Yswiriant Gwladol.

Llythyr gan y Swyddfa Gartref

Hyd at fis Mawrth 2004, arferai'r Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo (UKBA bellach) anfon llythyr yn nodi'n glir bod yr unigolyn a enwyd yn y llythyr yn cael aros yn y DU a'i fod â'r hawl i weithio.

Enghraifft o lythyr gan y Swyddfa Gartref

Rhestr A - Llythyr gan y Swyddfa Gartref:
Llythyr gan y Swyddfa Gartref **a** dogfen swyddogol a gyflwynwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth, fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu'r Adran Gwaith a Phensiynau, neu gan gyflogwr blaenorol yn nodi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw. Mae'r enghreifftiau o ddogfennau y gellir eu cyfuno gyda llythyr y Swyddfa Cartref yn cynnwys P45, P60 neu gerdyn rhif Yswiriant Gwladol.

Rhestr B - Llythyr gan y Swyddfa Gartref:
Llythyr gan y Swyddfa Gartref **a** dogfen swyddogol a gyflwynwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth, fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi neu'r Adran Gwaith a Phensiynau, neu gan gyflogwr blaenorol yn nodi rhif Yswiriant Gwladol parhaol yr unigolyn a'i enw, a gwiriadau dilynol tebyg o leiaf unwaith pob 12 mis. Mae'r enghreifftiau o ddogfennau y gellir eu cyfuno gyda llythyr y Swyddfa Cartref yn cynnwys P45, P60 neu gerdyn rhif Yswiriant Gwladol.

Dogfennau Teithio

Am na fydd gan y rhan fwyaf o ffoaduriaid basbort cenedlaethol gallant wneud cais am Ddogfen Deithio. Ceir tri math o ddogfennau teithio:

- Cyflwynir Dogfen Deithio'r Confensiwn (lliw glas) i bobl sydd wedi cael statws ffoadur ac mae'n caniatáu i'r deiliad deithio i unrhyw wlad heblaw gwlad eu tarddiad o'r lle bu'n rhaid i'r deiliad ffoi rhag erledigaeth.
- Cyflwynir Tystysgrif Adnabod (lliw brown) i bobl sydd wedi cael Amddiffyniad Dyngarol a Chaniatâd yn ôl Disgresiwn.
- Ar 17 Mawrth 2008, newidiodd y Dystysgrif Adnabod ei henw i'r Dystysgrif Deithio. Mae lliw'r ddogfen wedi newid hefyd, o frown i ddu. Nid yw dilysrwydd y ddogfen wedi newid na'r meini prawf sydd angen eu bodloni er mwyn ei chael. Gellir parhau i ddefnyddio'r ddogfen frown tan iddi ddod i ben.
- Efallai y bydd gan rai ffoaduriaid ddogfen deithio i bobl heb ddinasyddiaeth hefyd (lliw coch).

Rhestr A - Dogfennau Teithio:

Mae angen y Ddogfen Deithio sy'n nodi bod gan y deiliad ganiatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros yn y DU (h.y. dim cyfyngiad ar amser y deiliad yn y Deyrnas Unedig).

Rhestr B - Dogfennau Teithio:

Y Ddogfen Deithio a gwiriadau dilynol tebyg o leiaf unwaith pob 12 mis.

Enghreifftiau o Ddogfennau Teithio

4. Dogfennau sy'n dangos hawl ceiswyr lloches i weithio yn y DU

Pwy sy'n geisiwr lloches?

Ceisiwr lloches yw unigolyn sydd wedi gwneud cais i gael ei adnabod fel ffoadur o dan y Confensiwn Ffoaduriaid ac sy'n aros am benderfyniad ar ei gais am loches. Mae gan bawb yr hawl dynol sylfaenol i geisio cael lloches rhag erledigaeth.

Dogfennau

Caiff ceiswyr lloches Gerdyn Cofrestru Cais (ARC).
Mae'r cerdyn hwn yn cadarnhau pwy yw deiliad y cerdyn a'i fod ef neu hi wedi cael ei (d)derbyn i'r weithdrefn penderfynu lloches. Mae'r ddogfen hon hefyd yn nodi p'un a oes gan yr unigolyn yr hawl i weithio neu beidio. Dim ond yn Rhestr B y ceir y ddogfen hon. Nid yw'n ddogfen yn Rhestr A am nad oes gan geisiwr lloches ganiatâd i weithio yn y DU am gyfnod amhenodol.

Cerdyn Cofrestru Cais (ARC) gyda 'hawl i gyflogaeth' neu 'ganiatâd i weithio'

Bydd **'employment permitted'** neu **'work allowed'** wedi'i nodi ar ARC ceiswyr lloches sy'n cael gweithio.

Rhestr B - ARC:

ARC sy'n nodi 'employment permitted' neu 'work allowed' **a** ffurflen wedi'i llenwi gan y Gwasanaeth Gwirio Cyflogwr (ECS) sy'n cadarnhau bod y deiliad yn dal i fod â'r hawl i weithio. Argymhellir cynnal gwiriadau dilynol tebyg o leiaf unwaith pob 12 mis.

Enghraifft o ARC (blaen a chefn)

Gellir cael ffurflen ECS yn www.ukba.homeoffice.gov.uk/sitecontent/applicationforms/ecs/requestform.pdf

Gellir ffacsio'r ffurflen gyflawn i'r ECS ar 0114 207 5860.

Cyfrifoldeb y cyflogwr yw rhoi gwybod i'r darpar weithiwr y bydd yn archwilio eu manylion o bosibl gyda'r UKBA trwy'r ECS.

5. Gwneud cais am ganiatâd pellach i aros[iii]

Bydd angen i ffoaduriaid sydd wedi cael caniatâd dros dro i aros yn y DU wneud cais am ganiatâd pellach i aros cyn i'w caniatâd cyfredol ddod i ben. O dan Adran 3C o Ddeddf Mewnfudo 1971, bydd gan y rheiny sy'n gwneud ceisiadau ar amser am ganiatâd pellach yr un hawliau i weithio ac i hyfforddi ag o'r blaen. Fodd bynnag, bydd angen i ffoaduriaid anfon eu dogfennau gwreiddiol i'r Swyddfa Gartref wrth wneud cais am ganiatâd pellach. Gallai hyn gynnwys ffoaduriaid sydd â Chaniatâd Eithriadol i Aros (ELR) ac sy'n dal i aros am benderfyniad i'w cais am ganiatâd pellach. Rhoddwyd y Swyddfa Gartref y gorau i roi ELR ar 31 Mawrth 2003, a chyflwynwyd mathau gwahanol o ganiatâd yn eu lle, gan gynnwys y Caniatâd yn ôl Disgresiwn.
Os ydych chi'n recriwtio ffoaduriaid sydd wedi gwneud ceisiadau am ganiatâd pellach i aros, neu os oes gennych chi weithwyr yn y sefyllfa hon, dylech lenwi ffurflen y Gwasanaeth Gwirio Cyflogwr (ECS). Dylid ffacsio hon at yr ECS i gael cadarnhad o hawl y gweithiwr i barhau i weithio. Wedi i'r gwiriadau gael eu gwneud, bydd yr ECS yn rhoi ateb ysgrifenedig i chi'n uniongyrchol. Os bydd y canlyniad yn dangos bod yna gais yn y system, bydd yn egluro a oedd gan y gweithiwr neu'r darpar weithiwr yr hawl i weithio pan gafodd ei recriwtio ac yn esbonio bod yr hawl hwn yn gallu parhau nes i benderfyniad terfynol gael ei wneud.

Bydd y cadarnhad hwn, ynghyd â dogfen swyddogol a gyflwynwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol sy'n nodi rhif Yswiriant Gwladol parhaol y darpar weithiwr a'i enw, yn cael eu hystyried fel cyfuniad derbyniol o ddogfennau.

iii Mae'r adran hon wedi cael ei chadarnhau gan Uned Waith Anghyfreithlon yr UKBA sy'n gyfrifol am y canllawiau a roddir i gyflogwyr.

Os bydd ymgeisydd yn cael ei recriwtio ar ôl derbyn ymateb yr ECS, bydd dal angen i chi archwilio'r dogfennau gwreiddiol perthnasol cyn gynted â phosibl.

6. Sylwadau terfynol

Fel y cynghorir yng nghanllawiau cynhwysfawr yr UKBA, dylech chi ofyn i bob darpar weithiwr gyflwyno eu dogfennau cyn iddynt ddechrau gweithio i chi, p'un ai ydynt yn ffoaduriaid neu beidio. Os byddwch yn canolbwyntio ar ffoaduriaid neu wladolion tramor yn unig, gallech fod yn agored i honiadau eich bod yn gwahaniaethu ar sail hil neu genedligrwydd.

Bydd y cyngor a roddir yn yr arweinlyfr hwn o gymorth i chi sicrhau eich bod yn gweithredu'n unol â'r gyfraith ac nad ydych chi'n cyflogi unrhyw un heb ganiatâd i weithio yn y DU. Ond, trwy ddilyn y cyngor, byddwch hefyd yn sicrhau nad ydych chi'n colli'r cyfle i gyflogi ffoaduriaid sydd â hawl cyfreithiol i weithio yn y DU, amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau a llawer o gymhelliant i'w cynnig i'ch sefydliad.

7. Mwy o wybodaeth

Llinell gymorth yr UKBA i gyflogwyr: 0845 010 6677

Rhif ffacs Gwasanaeth Gwirio Cyflogwr (ECS) yr UKBA: 0114 207 5860

Gwefan yr UKBA: www.ukba.homeoffice.gov.uk/employers/

Gall Refugee Council Cymru a Chyngor Ffoaduriaid yr Alban ddarparu arbenigedd a chefnogaeth genedlaethol hefyd.

Scottish Refugee Council, 5 Cadogan Square, 170 Blythswood Court, Glasgow, G2 7PH, Ffôn: 0141 248 9799, Ffacs: 0141 243 2499
www.scottishrefugeecouncil.org.uk

Refugee Council Cymru, Phoenix House, 389 Heol Casnewydd, Caerdydd CF24 1TP Ffôn: 029 2048 9800, Ffacs: 029 2043 2980
www.welshrefugeecouncil.org.uk

Cafwyd cymorth Thompsons Solicitors, cwmni cyfreithwyr yr undebau llafur, i baratoi'r daflen hon. I gael mwy o wybodaeth ewch i www.thompsons.law.co.uk

8. Tabl cyfeirio cyflym

Mae'r tabl hwn yn rhoi canllaw cyfeirio cyflym i'r dogfennau a'r cyfuniadau o ddogfennau sydd gan ffoaduriaid ac sy'n eu galluogi i weithio'n gyfreithlon yn y DU (i gael mwy o fanylion ar bob math o ddogfen, gweler yr adrannau blaenorol).

Math o ddogfen	**Rhestr A**	**Rhestr B**
	I unigolion heb unrhyw gyfyngiadau ar eu hamser yn y DU	*I unigolion sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros yn y DU am gyfnod cyfyngedig o amser*
Dogfen Statws Mewnfudo	Yr ISD gwreiddiol gyda dogfen swyddogol a gyflwynwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol gan nodi rhif Yswiriant Gwladol parhaol unigolyn a'i enw.	Yr ISD gwreiddiol gyda dogfen swyddogol a gyflwynwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol gan nodi rhif Yswiriant Gwladol parhaol unigolyn a'i enw, a gwiriadau dilynol tebyg o leiaf unwaith pob 12 mis.
Llythyr gan y Swyddfa Gartref	Llythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref gyda dogfen swyddogol a gyflwynwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol gan nodi rhif Yswiriant Gwladol unigolyn a'i enw.	Llythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref gyda dogfen swyddogol a gyflwynwyd gan un o asiantaethau'r Llywodraeth neu gyflogwr blaenorol gan nodi rhif Yswiriant Gwladol parhaol unigolyn a'i enw, a gwiriadau dilynol tebyg o leiaf unwaith pob 12 mis.

Math o ddogfen	Rhestr A	Rhestr B
Dogfen Deithio	Y Ddogfen Deithio wreiddiol	Y Ddogfen Deithio wreiddiol a gwiriadau dilynol tebyg o leiaf unwaith pob 12 mis.
Cerdyn Cofrestru Cais sy'n nodi **'Allowed to work'** neu **'Employment permitted'**		Yr ARC gwreiddiol, ffurflen wedi'i llenwi i'r Gwasanaeth Gwirio Cyflogwr a chadarnhad gan y Gwasanaeth Gwirio Cyflogwr (ECS) bod y deiliad yn parhau i fod â'r hawl i weithio. Argymhellir cynnal gwiriadau dilynol tebyg o leiaf unwaith pob 12 mis.

Y Refugee Council yw'r elusen fwyaf sy'n gweithio gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid ledled y DU.
Rydym yn ymgyrchu dros eu hawliau ac yn eu helpu i ailafael yn eu bywydau yn ddiogel.

240–250 Ferndale Road London SW9 8BB
Ffôn 020 7346 6700 Ffacs 020 7346 6701
www.refugeecouncil.org.uk

Mae'r British Refugee Council (a elwir y Refugee Council neu'r Cyngor Ffoaduriaid gan amlaf) yn gwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, [Rhif 2727514] ac yn elusen gofrestredig, [Rhif 1014576]. Swyddfa Gofrestredig: 240-250 Ferndale Road, London SW9 8BB, United Kingdom. Rhif cofrestru TAW: 936 519 988